***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018, Paragraff 3. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 1 E+W

## DIWYGIADAU A DIDDYMIADAU CANLYNIADOL

### *Deddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52))*

3 (1) Mae Deddf Tai 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 10 (gosod anheddau a gwarediadau eraill nad yw'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru iddynt), hepgorer is-adran (3).

(3) Mae adran 16 (hawl tenant i gaffael annedd) wedi ei diddymu.

(4) Mae adran 16A (estyn yr hawl i gaffael i anheddau a ariannwyd drwy grantiau o dan adran 27A) wedi ei diddymu.

(5) Mae adran 17 (hawl tenant i gaffael annedd: darpariaeth atodol) wedi ei diddymu.

(6) Mae adran 20 (grant prynu pan fo'r hawl i brynu'n cael ei arfer) wedi ei diddymu.

(7) Yn adran 24 (y gronfa enillion o warediadau), yn is-adran (2)—
- (a) ym mharagraff (a)(i), hepgorer "section 16 above or";
- (b) hepgorer paragraff (b);
- (c) ym mharagraff (c), hepgorer "(b) or".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

**I2** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 26.1.2019 gan O.S. 2018/100, **ergl. 2(b)** (ynghyd ag ergl. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018, Paragraff 3.